# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 25 Ionawr 2005]

-

**Dydd Mawrth 1 Chwefror 2005 a dydd Mercher 2 Chwefror 2005**

**Dydd Mawrth 8 Chwefror 2005 a Dydd Mercher 9 Chwefror 2005**

***TORIAD HANNER TYMOR 14 -21 CHWEFROR 2005***

**Dydd Mawrth 22 Chwefror 2005 a dydd Mercher 23 Chwefror 2005**

## Dydd Mawrth 1 Chwefror 2005

- **Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (1 munud)**
- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Anghenion Addysgol Arbennig (30 munud)**

  Yr Adroddiad yw rhan gyntaf yr adolygiad polisi tri cham. Mae'r adroddiad cychwynnol hwn yn canolbwyntio ar nodi ac ymyrryd yn gynnar. Bydd y camau diweddarach yn archwilio'r broses 'ddatganiadau' a'r problemau a gafodd plant a phobl ifanc sydd ag AAA wrth symud o un cam o'u haddysg statudol i'r llall, ac wedyn wrth fynd ymlaen i addysg uwch a'r byd gwaith. Cytunodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar yr Adroddiad ar 13 Hydref 2004 ac fe'i trafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Tachwedd 2004.

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

- **Rheoliadau Deunyddiau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru)**

**2005**

- Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu dwy o Gyfarwyddebau'r Comisiwn Ewropeaidd 2004/13/EC sy'n ymwneud â defnyddio deilliannau epocsi penodol mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd a 2004/1/EC mewn perthynas â gwahardd defnyddio asodicarbonamid fel cyfrwng chwythu mewn plastig sy'n dod i gysylltiad â bwyd. Mae'r ddwy Gyfarwyddeb yn diwygio cyfarwyddebau eraill sy'n cael eu gweithredu gan un gyfres o reoliadau, Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd 1998 (OS rhif 1998/1376) fel y'u diwygiwyd (gan OS 2000 rhif 3162, 2002 rhif 2364 a 2002 rhif 2008). Nod polisi cyffredinol y cynnig yw sicrhau bod iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr yn cael eu diogelu tra'n sicrhau rhyddid i symud deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Mae'n hanfodol bod deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno'n fuan ym mis Chwefror 2005 fel bod gan gynghorau, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Tribiwnlysoedd Prisio ddigon o amser i gynnwys y dyddiadau newydd yn eu taflenni gwybodaeth sy'n egluro'r broses o wneud cynigion ac apelio. Rhaid i'r ddeddfwriaeth hon gael ei gwneud cyn y bydd gan drethdalwyr hawl i wneud cais i newid y pris a bennwyd am eu heiddo yn y rhestr newydd sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2005, ac i apelio yn erbyn y penderfyniad. Os na chaiff Rheoliadau 1993 eu diwygio, ni fydd gan bobl hawl i apelio. Byddai'r diwygiadau arfaethedig yn pennu terfyn amser, sef 31 Rhagfyr 2005, ar gyfer cyflwyno cynigion i newid rhestrau prisio 1993 (mae tri eithriad); caniatáu cynigion i newid rhestrau prisio 2005 o 1 Ebrill 2005; pennu terfyn amser newydd ar gyfer cynigion yn ymwneud â rhestr 2005 lle bo'r person yn credu bod camgymeriad wedi'i wneud gan y swyddog rhestru wrth lunio'r rhestr brisio (pennwyd dyddiad terfyn tebyg, sef 30 Tachwedd 1993, ar gyfer rhestrau prisio 1993 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 1993).

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**
- **Dadl ar gynnig Rheol Sefydlog 31 (NNDM2225) a gyflwynwyd gan Gwenda Thomas AC (60 munud)**

Cynnig a gyflwynwyd gan Aelod Cynulliad nad yw'n aelod o'r Llywodraeth yw cynnig Rheol Sefydlog 31, i gyflwyno polisi trwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r cynnig hwn ar ffurf cyfarwyddyd gan y Cynulliad i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ddrafft sy'n darparu y bydd materion penodol yn cael eu hystyried wrth benderfynu a yw llety'n addas ar gyfer person agored i niwed. Materion fel: anghenion iechyd penodol y person agored i niwed; pa mor agos yw'r gwasanaethau cymdeithasol a pha mor hawdd yw cael gafael arnynt; pa mor agos

yw’r gwasanaethau cymorth i’r teulu neu wasanaethau cymorth eraill a pha mor hawdd yw cael gafael arnynt; anabledd penodol y person agored i niwed.

-

## Dydd Mercher 2 Chwefror 2005

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**
- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i’r Adroddiad ar y Tasglu Tlodi Plant (30 munud)**

Ymgynghorwyd ar Adroddiad y Tasglu Tlodi Plant allanol dros yr haf. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant "Dyfodol Teg i'n Plant" yn ymateb i adroddiad y Tasglu, ac yn pennu cyfeiriad tymor hir i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant.

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn y Cynulliad Cenedlaethol (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

Trafodwyd y Gorchymyn hwn yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Gorffennaf 2004 a chafodd ei wneud ar 17 Tachwedd 2004. Mae'r swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn yn gysylltiedig â Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd a'i hestynnwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 a'r Atodlen sy'n ymwneud â Chlefyd y Crafu); Deddf Lladd-dai 1974; Deddf Ardoll y Diwydiant Moch 1983; Deddf Gwenyn 1980; Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996; Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cigydda neu Ladd) 1995; Rheoliadau TSE (Cymru) 2002; Adran 230 Deddf Treth Etifeddiaeth 1984; Adran 99-103 Deddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984; Adran 158 Deddf Diwydiant Dwr 1991; Adran 14(1) Deddf Pridiant Tir Lleol 1975.

- **Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig: Dyrannu arian i awdurdodau lleol ar gyfer gwaredu oergelloedd domestig (15 munud)**

Diben Adroddiad Grant Arbennig Rhif 7 (Cymru) yw cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i ddyrannu £2.8 miliwn yn 2004-05 i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r gwaith o gasglu, storio a gwaredu oergelloedd domestig. Mae'r Adroddiad Grant Arbennig hefyd yn caniatáu ailddyrannu £0.2 miliwn o'r grantiau a delir i awdurdodau lleol er mwyn rheoli'r gwaith o waredu oergelloedd.

- **Dadl ar y Strategaeth Diwydiannau Creadigol (60 munud)**

  Sefydlwyd y Strategaeth Diwydiannau Creadigol i gefnogi ac annog diwydiannau creadigol yng Nghymru a all wneud cyfraniad sylweddol i'r economi yng Nghymru. Bydd yn annog twf y diwydiannau creadigol yng Nghymru, drwy annog mwy o fewnfuddsoddi ac annog mwy o fusnesau i ddod i Gymru. Y prif feysydd gweithgaredd yw sefydlu cronfa ED greadigol newydd gwerth £7m, i ddiogelu gwaith yng Nghymru ac i fuddsoddi'n fwy strategol mewn busnesau creadigol yng Nghymru; cyflwyno dull strategol newydd o ddarparu cymorth i fusnesau o fewn y diwydiannau creadigol a chanolbwyntio ar hyfforddiant ac addysg yn y sector.

- **Dadl fer (30 munud)**

-

## Dydd Mawrth 8 Chwefror 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**
- **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2005**

  Prif ddiben y Rheoliadau yw sicrhau y bydd gan unrhyw un sydd eisoes wedi'i gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr (neu restr o gyflawnwyr meddygol yn achos ymarferydd cyffredinol) yn y Deyrnas Unedig sy'n gwneud cais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr a ddelir gan Fwrdd Iechyd Lleol (BILl) hawl i wneud cais cyflym a darparu llai o wybodaeth na phetai'n gwneud cais i fod yn rhan o restr cyflawnwyr am y tro cyntaf. Unwaith y daw'r cais i law, bydd gan yr ymgeisydd hawl i weithredu am gyfnod o ddau fis neu nes y bydd y BILl wedi penderfynu ar ei gais (pa bynnag gyfnod yw'r byrraf).

- **Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2005**

  Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn trosi ac yn gweithredu Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2003/95/EC a 2004/45/EC. Bydd y Rheoliadau newydd yn diwygio Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995 (fel y'u diwygiwyd) yng Nghymru i weithredu'r pumed a'r chweched diwygiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 96/77/EC, sy'n gosod meini prawf purdeb penodol ar gyfer bwyd ac eithrio lliwiau a melysyddion ledled yr UE. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhan o raglen barhaus i ddiweddaru manylebau'r UE ar gyfer ychwanegion bwyd, a ddefnyddir i sicrhau purdeb ychwanegion bwyd.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005 (30 munud)**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau i awdurdodau gorfodi i gyflwyno Penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas ag adnabod ceffylau sydd wedi'u trin â meddyginiaethau na ddylid eu rhoi i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd. Maent yn dirymu ac yn cymryd lle Gorchymyn Pasbortau Ceffylau 1997 a Gorchymyn Pasbortau Ceffylau (Diwygio) 1998 i'r graddau y maent yn ymestyn i Gymru.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiad Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2005 (15 munud)**

Pennir cynnwys hysbysiadau galw am dalu Ardrethu Annomestig a'r wybodaeth esboniadol sy'n cyd-fynd â'r mesurau yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 a bydd y rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 1993. Mae nodiadau esboniadol yn cyd-fynd â mesurau Ardrethu Annomestig, sy'n esbonio'r gwahanol fathau o ryddhad sydd ar gael i dalwr ardrethi a gweithdrefnau ar gyfer apelio. Mae cynghorau yn cynnwys y nodiadau hyn gyda'r mesurau ac mae'r Cynulliad yn pennu'r geiriad a ddylid ei ddefnyddio.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, i Glybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol sydd wedi cofrestru at ddiben Atodlen 18 o Ddeddf Cyllid 2002, mae yna ryddhad gorfodol o 80 y cant o'u biliau. Bydd hawl gan awdurdodau lleol i godi hyn i 100 y cant. Daeth y darpariaethau hyn i rym ar 1 Ebrill 2004, a rhaid i glybiau chwaraeon fod wedi'u cofrestru fel Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol gyda Chyllid y Wlad er mwyn derbyn rhyddhad gorfodol. Bydd yn rhaid diwygio'r rheoliadau i gynnwys y wybodaeth hon yn nodiadau'r mesurau. Hefyd, daw Ailbrisio Ardrethi Busnes i rym yn 2005/06, a bydd yn rhaid cynnwys gwybodaeth am hyn, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am y weithdrefn apelio.

- **Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol (45 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol (45 munud)**

Mae'r Prif Swyddog Meddygol yn llunio adroddiadau rheolaidd ar iechyd pobl Cymru. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres newydd o adroddiadau byrrach wedi'u creu i helpu darllenwyr i ganolbwyntio'n gynt ac yn haws ar faterion a gwybodaeth allweddol. Nod yr adroddiadau yw tynnu sylw at y materion iechyd pwysig yng Nghymru a disgrifio'r ffyrdd yr ymdrinnir â hwy. Mae'r adroddiad hwn yn gosod y sefyllfa i bawb ymateb i Her Iechyd Cymru gyda throsolwg ystadegol o iechyd pobl Cymru ac mae'n canolbwyntio ar dri mater iechyd allweddol - clefydau anadlol, iechyd rhywiol a gweithgarwch corfforol. Bydd dau adroddiad nesaf y gyfres yn cynnwys Damweiniau ac Anafiadau a Thybaco.

## Dydd Mercher 9 Chwefror 2005

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**
- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i'r Prif Weinidog (15 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo 2il Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol sy'n trafod Awdurdodau Heddlu yng Nghymru a'r adroddiad diwygio (15 munud)**

  Mae Rheol Sefydlog 21.12 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol osod gerbron y Cynulliad, Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol y Cynulliad (Rhif 2) ar gyfer awdurdodau heddlu Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-06; a'r adroddiad diwygio ar gyfer cynghorau ac awdurdodau heddlu ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-04. Mae'r ddau adroddiad i'w cymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad.

- **Dadl ar y Strategaeth Drafnidiaeth (60 munud)**

  Bydd y ddadl yn ystyried canlyniad adolygiad y Gweinidog o raglenni trafnidiaeth, a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2004.

- **Dadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 22 Chwefror 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**
- **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc) (Swm Dyddiol**

**Safonol) (Cymru) 2005**

Effaith fwriedig y Rheoliadau hyn yw pennu'r cynnydd yn y swm dyddiol y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ei godi ar awdurdodau cynllunio lleol am y gwasanaethau a ddarperir gan Arolygwyr Cynllunio wrth gynnal ymchwiliadau cyhoeddus i Gynlluniau Datblygu Unedol, cynlluniau lleol neu barthau cynllunio syml. Mae'r Rheoliadau yn pennu swm dyddiol safonol y gellir ei godi am bob diwrnod y mae Arolygydd yn ei dreulio yn cynnal ymchwiliad neu'n cynnal gwaith sy'n ymwneud ag ef. Bydd y gyfradd ddyddiol yn cael ei chynyddu o £61, sef o £618 i £679, mewn perthynas ag ymchwiliad neu wrandawiad arall sy'n agor ar 1 Ebrill 2005 neu wedi hynny. Bwriedir i'r cynnydd arfaethedig adfer costau llawn y gyfradd ddyddiol gan gynnwys costau uniongyrchol, costau cymorth llawn a gorbenion. Adferir costau teithio a chynhaliaeth yn ôl symiau gwirioneddol ac nid yw'n rhan o'r swm dyddiol hwn.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (15 munud)**

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn diwygio, ac yn cydgrynhoi lle y bo'n briodol, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996 (OS 1996 Rhif 590) a'r newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau ers eu cyhoeddi gyntaf (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2001 Rhif 3760 (W.309)) (Rheoliadau 1996). Bydd y gwelliannau hyn yn dirymu Rheoliadau 1996 i'r graddau y maent yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru. Y bwriad yw ymgorffori nifer o ddarpariaethau newydd, a fydd yn diweddaru'r rheolau ar gadw cyfrifon awdurdodau lleol, lleihau biwrocratiaeth ddiangen a gwella dulliau llywodraethu corfforaethol awdurdodau lleol a'u gwneud yn fwy atebol.

- **Cynnig i benodi Archwilwyr newydd i archwilio cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru (10 munud)**
- **Dadl wedi'i henwebu gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (45 munud)**
- **Dadl ar 5ed Adroddiad Cydraddoldeb blynyddol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Reol Sefydlog 6.5 (60 munud)**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-04 ac mae'n cynnwys 4 elfen – adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal; adroddiad blynyddol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad; adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd ag asesiad cyffredinol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar ôl ystyried y tair elfen arall.

**Dydd Mercher 23 Chwefror 2005**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**
- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**
- **Dadl ar Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i 3ydd Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant (60 munud)**
- **Dadl fer (30 munud)**